

BYWGRAFFIAD LARA MELDA

Enillodd Lara Melda gystadleuaeth 2010 Cerddor Ifanc y BBC, yn perfformio Ail Concerto Piano Saint-Saëns yn y rownd derfynol gyda Vasily Petrenko a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yng Nghaerdydd. Ers hynny perfformiodd hefyd Concerto Piano K466 Mozart a Thrydydd Concerto Piano Beethoven gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Gwnaeth Lara ei début yn y BBC Proms a'r Royal Albert Hall yr haf yma yn un o'r unawdwy'r yn perfformio gyda'r BBC Concert Orchestra dan arweiniad Andrew Gourlay mewn noson wedi'i neilltuo i enillwyr cynt Cerddor Ifanc. Ymhlith perfformiadau concerti eraill bu *Young Apollo* Britten gyda'r Britten Sinfonia dan arweiniad Paul Daniel (Barbican), Ail Concerto Piano Rachmaninov gyda'r Royal Northern Sinfonia a Kirill Karabits (The Sage), K466 a K242 Mozart gyda'r Aurora Orchestra a Nicholas Collon (Kings Place), Concerto Grieg gydag English Sinfonia (St John's Smith Square) a Thrydydd Beethoven ar daith yn Seland Newydd gyda Cherddorfa Genedlaethol Ieuencid Seland Newydd. Chwaraeodd ddatganiadau mewn oedfannau lawer yng ngwledydd Prydain a thramor, yn eu plith y Laeiszhalle (Hamburg), Les Sommets Musicaux yn Gstaad (y Swistir), Gŵyl Mecklenburg-Vorpommern (yr Almaen) a Cadogan Hall (Llundain). Gwnaeth Lara ei début mewn datganiad yn y Wigmore Hall yn 2017, ac wedi hyn gwelwyd tri datganiad eto dan eu sang yno ym misoedd Ionawr, Rhagfyr 2018, Tachwedd 2019 a Mai 2021. Yn ystod pandemig COVID daliodd Lara i draddodi cyngherddau ar lwyfannau ar lein, yn cynnwys datganiadau i lawer o glybiau cerdd drwy'r byd yn grwn a hefyd perfformiad o K595 Mozart gyda'r Northern Chamber Orchestra.

Mae Lara Melda'n perfformio'n rheolaidd yn Nhwrcei a gwnaeth ei début yn yr Wyl Gerdd Ryngwladol yn Istanbul ym mis Mehefin 2011, yn chwarae Concerto Grieg gyda Cherddorfa Ffilharmonig Borusan. Fe'i cyflwynwyd hefyd gan gyfres y piano 'Datganiadau Istanbul' a pherfformiodd yng Ngŵyl y Piano Antalya, Prifysgol Bogazici a Chanolfan Zorlu. Yn 2012 cafodd y wobwr o fri 'Artist Ifanc Addawol' gan Brifysgol Kadir Has ac yn 2015 pleidleisiwyd iddi 'Wobr Menyw'r Flwyddyn yn y Celfyddydau' gan Elele-Avon a phobl Twrcei. Aeth Lara yn ei hôl i Dwrci ym mis Mai 2019 i berfformio Concerto Piano Schumann gyda Cumhurbaşıkanlığı Senfoni Orkestrası yn Ankara.

Yn haf 2016 graddiodd Lara o'r Royal College of Music, lle'r astudiodd gydag Ian Jones, â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf. Cychwynnodd wersi piano gydag Emily Jeffrey pan oedd yn chwech oed ac ers 2017 mae'n dal i weithio'n glòs gydag Alfred Brendel. Yn fwyaf diweddar gwahoddiwyd Lara'n westai ar raglen *Proms Extra* teledu'r BBC ac yn 2020 rhyddhaodd ei CD Chopin début.